

1. Oes yna bethau sy'n perthyn i'r diwygiad y dylem, yn Brotestaniaid a Phabyddion, fod â chywilydd ohonyn nhw?
 2. Ble mae angen i ni edifarhau, maddau a sicrhau cymod?
 3. Sut mae dathlu'r diwygiad gan anrhydeddu ein hamrywiaethau a'n gwahaniaethau?
4. Ewch â chasgliad o bapurau newydd i'r cyfarfod - *Y Tyst, Seren Cymru, Y Goleuad, Golwg*, papur bro leol, un neu ddau bapur dyddiol poblogaidd, papur wythnosol lleol ayyb. Rhannwch hwy ymhlith y grŵp gan ofyn iddynt chwilio am storiâu 'crefyddol'.
- Trafodwch y storiâu: pa fath o storiâu ydyn nhw; at bwy maen nhw wedi eu hanelu; ydyn nhw'n cyflwyno crefydd mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol; ydyn nhw'n storiâu fyddi'n denu pobl ayyb.
- Fel arall gellir gofyn ymlaen llaw i aelodau'r grŵp chwilio am straeon crefyddol ei hunain.
5. Darllenwch gerdd T. Rowland Hughes - 'Blychau'. Dyma un pennill.

Nid ydynt hardd, eich hen addoldai llwm.
 Pa ddwylo a'u lluniodd hwy
 yn flychau sgwâr, afrosgo, trwm,
 yn foel, ddiramant, hyd y cwm,
 heb orchest bwa na mireinder sgrîn,
 heb ffenestr liw a'r lliw fel gwin
 hwyr a gwawr:

Oes gan y gerdd neges ar gyfer heddiw?

Fe allech hefyd ddarllen cerdd Peredur Lynch - 'Dathlu Dengmlwyddiant Capel Berea Newydd, Bangor 2003-2013' (*Caeth a Rhydd*, tud. 27), a chymharu'r ddwy.

Pa un sy'n apelio fwyaf atoch a pham?

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cynllun Y Ffordd



Y Ffordd y Daethom

Blwyddyn 2, Rhan 1
Hydref-Tachwedd 2017

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Fe welwch fod y ffilm wedi'i rhannu yn 6 phennod gyda Rhagarweiniad ar y dechrau. Mae pob un yn amrywio o ran hyd. Awgrymwn eich bod yn rhannu'r ffilm fel mae'n addas i chi. Ceir cwestiynau ar gyfer y penodau unigol ar waelod y dudalen hon a thudalennau 2 a 3.

Rhagarweiniad

- Pennod 1: *Pwysigrwydd Hanes*
- Pennod 2: *Y Dechreuadau - 1517*
- Pennod 3: *Gwreiddiau'r Traddodiad*
- Pennod 4: *Twf yr Eglwys*
- Pennod 5: *Y Tyst yn 150 oed*
- Pennod 6: *Yr Eglwys Annibynnol*

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?

Cwestiynau i'w trafod

Rhagarweiniad a Phennod 1: Pam fod Hanes yn Bwysig

1. Mae'r ddelwedd o'r môr yn gyfarwydd mewn perthynas â thwf a dirywiad crefydd. Pa ddelweddau eraill sy'n dweud rhywbeth wrthych chi am hyn?
2. Ydy'n bosibl cynnal a chryfhau ffydd heb fynd i le o addoliad yn rheolaidd? Ym mha ffyrdd eraill gellir cynnal a chryfhau ffydd?
3. Beth sy'n gwneud eich capel yn sbesial i chi?
4. Ydy hanes eich capel yn bwysig i chi?
5. 'Heb wybod o ble ry'm ni wedi dod, nid yw'n bosibl gwybod pwy ydym na ble ry'm ni'n mynd.' Trafodwch.

Pennod 2: Y Dechreuadau - 1517

1. Sut ydych chi'n deall y geiriau 'Y cyfiawn a fydd fyw trwy ffydd'?
2. Beth gredwch chi yw'r peth pwysicaf a ddaeth allan o'r diwygiad Protestannaidd?
3. Ym mha ffordd y bu i Martin Luther newid y byd?
4. 'Nid gweithredoedd da sy'n gwneud dyn da, ond dyn da sy'n gwneud gweithredoedd da.' Trafodwch.
5. A ellir cyfiawnhau'r defnydd o grefydd i reoli neu ddisgyblu pobl?

Pennod 3: Gwreiddiau'r Traddodiad

1. Cafodd John Penri ei ddienyddio gan y wladwriaeth oherwydd ei argyhoeddiadau Cristnogol dwfn. Oes gennych chi argyhoeddiadau y byddech chi'n barod i'w harddel i'r eithaf?
2. Sut mae cysoni argyhoeddiadau dwfn gyda goddefgarwch?
3. Oes rhinwedd mewn hyblygrwydd a pharodrwydd i newid?
4. Pa fath o berthynas ddylai fod rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth?

Pennod 4: Twf yr Eglwys

1. Pwy yw'r bobl heddiw sy'n gweld yr eglwys yn beryglus a pham maen nhw'n credu hynny?
2. Gawsoch chi anhawster i addoli mewn eglwys oedd yn wahanol i'ch capel chi? Os felly, pam?
3. Beth yw manteision ac anfanteision y ffaith nad oes gan Gymru eglwys wladol swyddogol?

Pennod 5: Y Tyst yn 150 oed

1. Pa gymorth ymarferol fyddech chi'n hoffi i'r Undeb roi i'r eglwys heddiw?
2. Ydy'ch eglwys chi yn gwneud digon o ddefnydd o'r technegau cyfoes, fel y cyfryngau cymdeithasol, i hyrwyddo ei gwaith a'i chenhadaeth?
3. 'Roedd creu'r teimlad o fod yn rhan o'r un uned a pherthyn i'r un gymdeithas neu rwydwaith yn ffactor bwysig i'r Annibynwyr erioed.' Beth ellid ei wneud heddiw i greu'r teimlad hwn?

Pennod 6: Yr Eglwys Annibynnol

1. Beth yw hanfod eglwys Annibynnol i chi?
2. Pe byddai'ch capel chi'n cau, fyddech chi'n ymuno â chynulleidfa leol arall?
3. Oes yna fanteision i'r eglwys o fod yn bobl yr ymylon yn y gymdeithas heddiw? Beth am yr anfanteision?
4. Pa mor amlwg yw'r llais beirniadol a miniog ym mhregethu eich eglwys chi?
5. Sut mae gwneud yn siŵr nad yw ein hannibyniaeth yn troi yn:
a) unigolyddiaeth neu b) annibendod?

Gweithgarwch Ychwanegol

1. Dechreuodd y Diwygiad Protestannaidd gyda Martin Luther yn cyhoeddi'r 95 pwnc roedd am eu trafod gydag arweinwyr yr Eglwys. Pa bynciau fyddech chi am eu trafod o fewn yr eglwys heddiw, a pham? (Does dim rhaid cael 95!)
2. Darllenwch Lythyr Iago yn y Testament Newydd, Pennod 2, adnodau 14-24. Oes gwrthdaro rhwng geiriau Iago a dysgeidiaeth Luther ar 'Gyfiawnhad trwy ffydd yn unig'?
3. Eleni yn Wittenberg, fe fydd cynrychiolwyr yr Eglwys Lutheraidd a'r Eglwys Babyddol yn dod at ei gilydd am y tro cyntaf i ddatlu'r Diwygiad Protestannaidd. Maen nhw'n gwneud hynny, meddant, 'mewn ysbryd o gymod', ac o dan yr arwyddair 'Iachau'r Atgofion', sef y geiriau a ddefnyddiwyd wrth ffurfio Comisiwn Gwirionedd a Chymod Desmond Tutu yn Ne Affrica.